24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a
Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Y Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Cyfeirnod:** AC/344/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Ionawr 2023

Annwyl Mark

## Prynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru

Ar 31 Mawrth 2022, fe brynodd Llywodraeth Cymru rydd-ddaliad Fferm Gilestone ger Talybont-ar-Wysg, Powys (ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), mewn gwerthiant preifat, am £4.25 miliwn. Ar yr un pryd, i roi cymorth iddi reoli'r safle'n barhaus, fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru i drefniant adles fyrdymor gyda'r gwerthwr, am rent rhad, i gynnal a chadw'r eiddo a chynaeafu cnydau presennol. Daeth y trefniant adles hwn i ben ar 31 Hydref 2022. Ar yr adeg honno, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu'n derfynol ar ei fwriadau hirdymor ar gyfer y safle. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar adles fyrdymor newydd gyda'r gwerthwr i barhau â gweithrediadau presennol ar delerau sydd, yn ôl ein dealltwriaeth ni, yn rhai masnachol, gan gynnwys rhannu elw. Mae'r adles newydd hon i fod i ddod i ben ar 31 Hydref 2023.

Trwy nodi ffeithiau allweddol o'n hadolygiad ni o benderfyniad Llywodraeth Cymru, mae'r llythyr hwn a'r atodiadau wrtho wedi'u bwriadu i ategu unrhyw waith craffu

pellach gan y PCCaGG[1], gan adeiladu ar dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig y mae'r PCCaGG a'r Senedd ehangach wedi ei chael yn barod a gwybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Wedi'i hatodi wrth y llythyr hwn mae llinell amser fanwl sy'n nodi digwyddiadau allweddol a dogfennau perthnasol sy'n ategu'r broses gaffael. Hefyd wedi'i hatodi mae rhestr o ymatebion Llywodraeth Cymru i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn ôl y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2022.

Mae prosesau penderfynu da gan Lywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill) yn galw am weithredu'n deg, o fewn y gyfraith; a pharchu egwyddorion atebolrwydd, hygyrchedd a thryloywder[2]. Mae gwneud hynny'n arwain at benderfyniadau sy'n gallu gwrthsefyll prosesau craffu, ac unrhyw her gyfreithiol gan rywun y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arno/arni.

Roedd y meysydd ffocws allweddol ar gyfer ein hadolygiad[3] fel a ganlyn:

- pa un a oedd Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pwerau cyfreithiol i brynu Fferm Gilestone, a pha un a arferodd y pwerau hyn yn briodol o fewn ei fframwaith polisi;
- pa un a gafodd y penderfyniad i brynu'r Fferm ei wneud yn briodol; ei wneud o fewn y broses weinyddol gywir a'r fframwaith rheoli cywir, a pha un a gafodd ei wneud gan y rhai a oedd yn meddu ar yr awdurdod priodol;
- pa un a roddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth ddyladwy i'r holl wybodaeth berthnasol wrth wneud ei phenderfyniad, ac a wnaeth beidio â chynnwys gwybodaeth amherthnasol;

[1] Ar 14 Gorffennaf 2022, clywodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PCCaGG) y Senedd dystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru am y trafodiad.

[2] Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu'r termau 'rheoleidd-dra' (cydymffurfio â deddfwriaeth, awdurdod dirprwyedig, a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys defnyddio arian cyhoeddus at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer); ac 'uniondeb' (cyrraedd safonau uchel a chwrdd â disgwyliadau uchel o ran ymddygiad cyhoeddus).

[3] Rydym wedi cyfeirio at gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ei hun, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Gwneud Penderfyniadau Da.

- pa un a gymerodd Llywodraeth Cymru gamau priodol i ddiogelu gwerth am arian o arian cyhoeddus; a
- pha un a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfrif priodol am ei gweithredoedd a'r rhesymau drostynt, mewn ymateb i graffu dilys gan y Senedd ac yn gyhoeddus.

Nid ydym wedi archwilio rhinweddau defnyddiau o'r safle yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru, ei thenantiaid, nac unrhyw brynwyr dilynol; yn enwedig gan gwmnïau sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd[4], a gynhelir ar Ystâd Glanwysg gerllaw. Nid ydym ychwaith wedi archwilio ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru bellach wedi penderfynu ar gytundeb ar gyfer adles fasnachol gyda'r gwerthwr tan ddiwedd mis Medi 2023. Fodd bynnag, rydym wedi adolygu i ba raddau y gwnaeth ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddiau posibl yn y dyfodol oleuo'i phenderfyniadau hi ei hun mewn perthynas â'r pryniant.

Nid ydym wedi ceisio datgeliad llawn o ran yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r trafodiad. Mae'r partïon allweddol y gwnaethom ni gwrdd â hwy a gohebu gyda hwy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, y gwerthwr, Rheolwr Gyfarwyddwr Gŵyl y Dyn Gwyrdd, a phartïon allanol a roddodd gyngor proffesiynol i Lywodraeth Cymru. I ategu ein hadolygiad, fe wnaethom archwilio gwybodaeth a oedd ar gael yn gyhoeddus am safle a lleoliad Fferm Gilestone, adroddiadau prisio ac arolygu, cyngor/adroddiadau cyfreithiol, adroddiadau amgylcheddol, amlinelliad o gynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd, cyngor a gohebiaeth a ddarparwyd ar gyfer Gweinidogion a gohebiaeth rhwng partïon allweddol. Fodd bynnag, ni chadwodd Llywodraeth Cymru gofnod o faterion a drafodwyd gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd mewn amryw gyfarfodydd rhithwir wrth iddi ystyried yr amlinelliad o gynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'r broses a arweiniodd at gaffael Fferm Gilestone. Rydym ni o'r farn y byddai nodiadau o'r trafodaethau hynny wedi ategu'r trywydd archwilio ar gyfer proses benderfynu Llywodraeth Cymru yn well, yn enwedig o'r adeg y cafodd Fferm Gilestone ei hadnabod fel pryniant posibl.

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi prynu tir ac eiddo rhydd-ddaliad yn Fferm Gilestone a ategwyd gan brisiad proffesiynol annibynnol, fel sy'n arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw bryniant dan gytundeb preifat; sydd yn y bôn yn drafodiad cymharol syml. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd cynlluniau ar gyfer defnyddio'r Fferm yn y

---

[4] Mae nifer o gwmnïau cysylltiedig eraill yn gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Er hwylustod rydym yn cyfeirio atynt ar y cyd fel 'Gŵyl y Dyn Gwyrdd', oni nodir fel arall.

dyfodol yn dal i gael eu hystyried a bydd penderfyniadau pellach yn cael eu gwneud ynglŷn â hwy. Pan benderfynodd brynu'r Fferm, roedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld penderfyniad pellach pa un a fyddai'n cefnogi cynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd ai peidio cyn diwedd mis Hydref 2022 pan ddaeth yr adles fyrdymor gychwynnol gyda'r perchennog blaenorol i ben.

Yn ein tyb ni, y ffactor mwyaf arwyddocaol a gyfrannodd at gyflymder proses benderfynu Llywodraeth Cymru ar gyfer y pryniant ei hun oedd y cyfle i ddefnyddio tanwariant yn ystod y flwyddyn o fewn Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi i ariannu'r pryniant, ynghyd â'r gofyniad canlyniadol (a bwysleisiwyd yng nghyngor swyddogion i Weinidog yr Economi) i gwblhau'r pryniant erbyn 31 Mawrth 2022.

Mae'n bwysig bod gan Lywodraeth Cymru ddigon o hyblygrwydd i wneud penderfyniadau'n iawn, ond gan ddal i allu eu gwneud yn gyflym, lle mae hyn yn ei galluogi i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi sy'n amlwg yn ategu ei hamcanion polisi. Rydym hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd ynglŷn â safleoedd posibl am beth amser. Fodd bynnag, mewn perthynas â Fferm Gilestone, rydym ni o'r farn bod brys osgoadwy a ysgogwyd gan ddiwedd y flwyddyn ariannol wedi peryglu gallu Llywodraeth Cymru i ddynodi'n glir ac ystyried yn llawn fel rhan o'i phroses benderfynu beth oedd y rhesymeg danategol ar gyfer prynu'r safle hwnnw, yn gysylltiedig â bwriadau Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar ei gyfer. Yn ein tyb ni, nid yw'r materion hyn yn tanseilio cywirdeb gweithdrefnol y penderfyniad hwnnw'n sylfaenol os caiff, yn y lle cyntaf o leiaf, ei ystyried yn drafodiad eiddo uniongyrchol. Serch hynny, mae'n amlwg na fyddai Llywodraeth Cymru wedi prynu'r Fferm pe na bai Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi cysylltu â hi gyda rhywbeth a oedd, ar y pryd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth yr ydym ni wedi ei hadolygu, yn ddim llawer mwy nag amlinelliad lefel-uchel o ddyheadau Gŵyl y Dyn Gwyrdd.

Ni fyddwn yn dyfalu a fyddai'r Gweinidog, pe bai ganddo ffrâm amser hwy, yn dal i fod wedi gwneud yr un penderfyniad. Fodd bynnag, gyda mwy o amser gallai Llywodraeth Cymru wedi cynnal diwydrwydd dyladwy cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Trwy brynu Fferm Gilestone pan wnaeth hynny, derbyniodd Llywodraeth Cymru risg ariannol osgoadwy, er ei bod yn un fach y gellid ei rheoli ym marn swyddogion a bwysleisiodd hynny wrthym ni. Ac, yn ein barn ni, pe bai Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r broses o ystyried cynlluniau Gŵyl y Dyn Gwyrdd cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â phrynu'r Fferm neu beidio, gallai'r modd y cyfleodd Llywodraeth Cymru ei gweithredodd yn allanol fod wedi bod yn fwy eglur wedyn hefyd.

## Pa un a oedd Llywodraeth Cymru'n meddu ar y pwerau cyfreithiol i brynu Fferm Gilestone, a pha un a arferodd y pwerau hyn yn briodol o fewn ei fframwaith polisi?

Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu o fewn ei hawdurdod cyfreithiol[5]. Caiff ei phwerau cyfreithiol eu nodi mewn deddfwriaeth a gall cyfraith achosion gyfyngu arnynt.

Roedd cyngor a roddwyd ar 23 Mawrth 2022 gan swyddogion Llywodraeth Cymru i Weinidog yr Economi, yn gofyn am benderfyniad ynglŷn â'r trafodiad i brynu Fferm Gilestone, yn nodi'r pwerau cyfreithiol angenrheidiol dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, Adran 1 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Roedd y cyngor hwn hefyd yn gosod penderfyniad y Gweinidog yng nghyd-destun dyletswyddau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a pholisïau i gefnogi twristiaeth, ac adfywio cymdeithasol ac economaidd.

## Pa un a gafodd y penderfyniad i brynu'r Fferm ei wneud yn briodol; ei wneud o fewn y broses weinyddol gywir a'r fframwaith rheoli cywir, a pha un a gafodd ei wneud gan y rhai a oedd yn meddu ar yr awdurdod priodol?

Yn ymarferol, mae dyletswyddau gweinidogion yn aml yn cael eu cyflawni gan swyddogion, a hwythau'n gweithredu o fewn fframwaith awdurdod dirprwyedig[6]. Fodd bynnag, mae penderfyniadau pwysig yn aml yn cael eu gwneud gan weinidogion yn bersonol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau sy'n gosod cynseiliau, sy'n newydd, a allai fod yn ddadleuol, neu a allai ddwyn sgîl-effeithiau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus.

---

[5] Mewn cyfraith gyfansoddiadol a gweinyddol, y term am weithredu heb awdurdod cyfreithiol yw 'ultra vires'.

[6] Mae 'Achos Carltona' yn amodi, lle mae swyddogion digon profiadol yn gwneud penderfyniad ar ran y Gweinidog, mai penderfyniad y Gweinidog a'i gyfrifoldeb ef neu ei chyfrifoldeb hi ydyw o hyd.

Yn dilyn trafodaethau cynharach gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd ynglŷn â dod o hyd i safle priodol, ac yn fuan wedi i Ŵyl y Dyn Gwyrdd dynnu sylw Llywodraeth Cymru at argaeledd posibl Fferm Gilestone, ar 7 Chwefror 2022 fe wnaeth swyddogion sicrhau cytundeb Gweinidog yr Economi â phenderfyniad iddynt barhau â deialog ynghylch y posibilrwydd o'i phrynu. Yn dilyn Cyngor Gweinidogol ffurfiol dyddiedig 22 Mawrth 2022 yn nodi ystod o opsiynau, ar 24 Mawrth 2022 fe benderfynodd Gweinidog yr Economi barhau â'r opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio i brynu'r safle am £4.25 miliwn erbyn 31 Mawrth 2022. Roedd yr opsiwn hwn yn cynnwys trefniant adles gyda'r gwerthwr, o dyddiad cwblhau'r gwerthiant tan 31 Hydref 2022, am rent rhad. Roedd y Cyngor Gweinidogol yn cyflwyno chwe opsiwn arall i'r Gweinidog gydag esboniad byr pam nad oedd yr opsiwn hwnnw'n hyfyw neu'n cael ei ffafrio. Yr opsiynau eraill a gyflwynwyd i'r Gweinidog oedd:

- Bod Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn prynu neu'n prydlesu'r eiddo dan sylw heb ymwneud gan Lywodraeth Cymru.
- Bod Llywodraeth Cymru yn peidio â phrynu'r eiddo dan sylw.
- Bod Llywodraeth Cymru'n prynu eiddo arall.
- Bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ar ffurf grant i Ŵyl y Dyn Gwyrdd, gan eu galluogi i brynu'r eiddo.
- Bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ar ffurf benthyciad i Ŵyl y Dyn Gwyrdd, gan eu galluogi i brynu'r eiddo.
- Bod Cyngor Sir Powys yn prynu'r eiddo dan sylw.[7]

Cyn cael y cyngor ffurfiol, roedd swyddogion, yn briodol. wedi atgyfeirio'r penderfyniad ynglŷn â phrynu Fferm Gilestone neu beidio at Uned Llywodraethu Corfforaethol (ULIC) fewnol Llywodraeth Cymru oherwydd, ar yr adeg honno, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael cynllun busnes llawn gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd.

---

[7] Roedd y cyngor dyddiedig 22 Mawrth 2022 yn egluro nad oedd y cyllid ar gael gan Gyngor Sir Powys i brynu'r safle er nad ydym wedi gallu canfod ar ba sail y daethpwyd i'r casgliad hwn. Rydym wedi gweld negeseuon e-bost rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sy'n syml yn ymwneud â gweithgareddau posibl ar y safle yn hytrach na chwestiynau am gyllid i'w brynu. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau i ni na dderbyniodd unrhyw gais ffurfiol ynghylch prynu'r safle.

Cadarnhaodd yr ULIC fod y penderfyniad felly'n newydd a/neu'n ddadleuol ac yna darparodd y cliriad perthnasol ar y sail eu bod wedi'u hargyhoeddi bod y risgiau a'r materion a oedd yn codi'n benodol o sail newydd a/neu ddadleuol y penderfyniad wedi'u datgelu a'u lliniaru'n briodol yn y nodyn cyngor, cyn atgyfeirio'r penderfyniad at y Gweinidog.

Cafodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol weld y cyngor hefyd ac fe gadarnhaodd wrth yr ULIC eu bod yn fodlon derbyn y risg a oedd yn gysylltiedig â'r mater newydd/dadleuol; gan nodi bod y swm a'r risg yn gymharol isel. Hefyd, darparwyr cliriad ariannol gan y grŵp cyllid perthnasol ac Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth. Ni chafodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad (y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol) gopi o'r cyngor ac (fel a gadarnhawyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i gais rhyddid gwybodaeth) nid oedd yn un o'r uwch swyddogion a oedd yn gwybod am y diddordeb yn Fferm Gilestone a'r syniad o'i phrynu ar y pryd. Nid yw Cynllun Dirprwyo Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol o anghenraid cael cymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i Gyngor Gweinidogol, gan nodi mai 'yr egwyddor dra phwysig yw bod atebolrwydd yn gorwedd gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n clirio'r Cyngor Gweinidogol, neu rywun mewn swydd uwch'. Fodd bynnag, lle mae penderfyniadau'n newydd neu'n ddadleuol, byddem yn ystyried ei bod yn ddoeth i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gael ei hysbysu o leiaf.

Yn ein barn ni gallai'r cyngor a roddwyd i'r Gweinidog fod wedi ei gwneud yn fwy eglur pam yn union yr oedd cynnwys y cyngor yn newydd/dadleuol, a sut y byddai risgiau penodol a oedd yn codi'n cael eu lliniaru. Hefyd, cyfyngedig yw'r wybodaeth a ddarperir gan y cyngor ynglŷn â sut y gallai fod cyfyngiad ar addasrwydd y safle ar gyfer defnyddiau bwriadedig Gŵyl y Dyn Gwyrdd o ganlyniad i'r materion posibl a nodwyd mewn perthynas â mynediad corfforol at y safle; hawliau eraill i gael mynediad at y safle; gofynion cynllunio; a'r ffaith bod rhannau o'r safle'n sensitif yn amgylcheddol h.y. wedi'u dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig.

Roedd nodyn Cyngor Gweinidogol cynharach, ar wahân (dyddiedig 10 Mawrth 2022) yn gofyn am benderfyniad gan y Gweinidog i awdurdodi gwariant hyd at £60,000 ar ffioedd proffesiynol ar gyfer cyngor cyfreithiol a chyngor ym maes eiddo mewn perthynas â'r trafodiad prynu posibl, a fyddai'n cael ei gaffael dan gontractau fframwaith presennol. Fe wnaeth Gweinidog yr Economi gymeradwyo'r gwariant ar 16 Mawrth 2022. Nid oedd y Cyngor Gweinidogol yn ei gwneud yn glir bod y dewis ymgynghorwyr proffesiynol eisoes wedi cael eu comisiynu ac wedi dechrau gwneud y gwaith cyn i'r swyddogion geisio cymeradwyaeth ar gyfer y gwariant.

Cafodd copi o’r cyngor dyddiedig 22 Mawrth 2022 ei anfon er gwybodaeth at y Gweinidog a’r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon. Nid anfonwyd copi at y Gweinidog Materion Gwledig, yn ôl a ddeallwn ni oherwydd amryfusedd gweinyddol, er bod y mater yn berthnasol i’w phortffolio. Fe ymatebodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar ôl i’r penderfyniad i brynu gael ei gytuno gan Weinidog yr Economi, gan ddweud os na fyddai’r opsiwn gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn mynd yn ei flaen y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio’r eiddo ar gyfer amcanion polisi eraill megis plannu coed ac ynni adnewyddadwy, cyn rhoi’r eiddo ar y farchnad agored. Mewn datganiad ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru ar 12 Awst 2022 mewn perthynas ag achosion honedig o dorri Cod y Gweinidogion[8], dywedodd Prif Weinidog Cymru, er bod copi o wybodaeth wedi cael ei hanfon at y Gweinidog Newid Hinsawdd, nad oedd y Gweinidog Newid Hinsawdd na Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn rhan o wneud penderfyniadau ynglŷn â Fferm Gilestone ac nad oedd y Cod wedi cael ei dorri. Fodd bynnag, oherwydd eu cyfeillgarwch gyda Rheolwr Gyfarwyddwr Gŵyl y Dyn Gwyrdd, byddai’r ddau Weinidog yn cael eu gadael allan o unrhyw drafodaethau pellach.

Cafodd y pryniant a’r trefniadau adles eu goruchwylio gan Dîm Arweinyddiaeth Eiddo Llywodraeth Cymru, yn unol â threfniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym ni eu bod yn arferol ar gyfer trafodion o’r fath, gan gynnwys cyngor proffesiynol annibynnol. Nid ydym wedi adolygu arferion prynu eiddo ehangach Llywodraeth Cymru fel rhan o’r gwaith yma.

## Pa un a roddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth ddyladwy i’r holl wybodaeth berthnasol wrth wneud ei phenderfyniad, ac a wnaeth beidio â chynnwys gwybodaeth amherthnasol?

Gellir barnu bod penderfyniad gan gorff cyhoeddus yn afresymol os yw’n seiliedig ar gasgliad nad yw’n cael ei ategu gan dystiolaeth neu resymau da; neu lle na fyddai unrhyw un rhesymol yn ystyried bod y dystiolaeth yn ddigon i ategu’r casgliad y daethpwyd iddo[9].

---

[8] Ar 16 Mai 2022, aeth y Gweinidog Newid Hinsawdd a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ill dau i ddigwyddiad cymdeithasol mewn cymhwyster personol. Roedd Rheolwr Gyfarwyddwr Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn bresennol hefyd.

[9] Prawf rhesymoldeb ‘Wednesbury’.

Nid yw'n ofynnol i'r penderfynwr ystyried yr holl ddeunydd ond dylai fod â chymaint o wybodaeth â phosibl am y penderfyniad i sicrhau nad yw unrhyw ystyriaethau perthnasol yn cael eu hanwybyddu. Rhaid iddynt roi sylw i ystyriaethau perthnasol a rhaid iddynt beidio â gadael i ystyriaethau amherthnasol ddylanwadu'n sylweddol arnynt. Mae ffactorau amherthnasol yn cynnwys yr angen i wneud rhywbeth yn gyflym; ac adwaith disgwyliedig y cyfryngau i'r penderfyniad.

Roedd cyngor swyddogion a oedd yn ategu penderfyniad y Gweinidog pa un a ddylid prynu'r Fferm ai peidio (dyddiedig 22 Mawrth) yn pwysleisio, am resymau a oedd yn ymwneud â chyllid, bod angen cwblhau'r pryniant ar neu cyn 31 Mawrth 2022. Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd cyllideb gyfalaf Cymru Greadigol ar gyfer 2022-23 (sef £5 miliwn yn unig yn ôl ein dealltwriaeth ni) yn cynnwys unrhyw arian a oedd ar gael ar gyfer y pryniant. Mae'n amlwg mai dewis Llywodraeth Cymru i ddefnyddio tanwariant cyllidebol yn ystod y flwyddyn o'i chyllideb ehangach i gyllido'r pryniant cyn diwedd y flwyddyn ariannol oedd y prif ysgogiad ar gyfer trafodiad cyflym am y rhesymau canlynol:

- Nid oedd y gwerthwr wedi marchnata'r Fferm yn agored ac fe wnaeth prynwr preifat posibl, y darparwyd manylion yr eiddo ar ei gyfer ym mis Chwefror 2020[10], dynnu ei ddiddordeb yn ôl wedyn yn ddiweddarach y flwyddyn honno – nid oedd gobaith y byddai'r eiddo'n cael ei werthu'n fuan i barti arall;
- Nid oedd cynlluniau Gŵyl y Dyn Gwyrdd ei hun yn ei gwneud yn angenrheidiol gwneud penderfyniad cyflym ynglŷn â phrynu ac nid oeddent wedi'u ffurfio'n llawn eto. Ni chafodd Llywodraeth Cymru fersiwn gychwynnol o gynllun busnes llawn gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd tan 29 Mehefin 2022;
- Nid oedd sicrhau perchnogaeth ar Fferm Gilestone yn angenrheidiol i gefnogi Gŵyl y Dyn Gwyrdd 2022, a gynhaliwyd rhwng 18 a 21 Awst 2022 yn Ystâd Glanwysg, Crughywel, Powys; ac
- Nid oedd bygythiad uniongyrchol i gadw Gŵyl y Dyn Gwyrdd yng Nghymru, er bod Cyngor Gweinidogol yn nodi bod Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi cael cynigion i

[10] Roedd y manylion hyn yn dyddio o 2015 ac yn nodi mai £3.25 miliwn oedd gwerth yr eiddo; roeddent wedi'u llunio cyn i lety gwyliau gael ei ddatblygu'n ddiweddarach; ac nid ydynt yn adlewyrchu codiadau ehangach ym mhrisiau eiddo ers y dyddiad hwnnw.

brynu'r brand a allai olygu bod yr Ŵyl yn symud o Gymru. Mae cytundeb cyfredol Gŵyl y Dyn Gwyrdd gydag Ystâd Glanwysg yn rhedeg tan 2030.

Canlyniadau uniongyrchol cwblhau'r trafodiad ar 31 Mawrth 2022 oedd bod Llywodraeth Cymru:

- wedi darparu adles fyrdymor ar gyfer y gwerthwr (hyd at 31 Hydref 2022) am rent rhad, i'w galluogi i gynaeafu cnydau a chyflawni archebion am lety gwyliau;
- angen cynnal ystod o opsiynau ar gyfer y safle, gan gynnwys: estyn y trefniant cyfredol i'w roi ar adles i'r gwerthwr; prydles dymor hwy i Ŵyl y Dyn Gwyrdd, neu ddeiliad prydles arall; neu werthu'r safle ymlaen.

Pe bai Llywodraeth Cymru wedi gallu defnyddio cyllideb gyfalaf wahanol gydag arian ar gael ar gyfer 2022-23, byddai wedi osgoi'r terfyn amser a ysgogwyd gan gyllid ar gyfer cwblhau'r pryniant, sef 31 Mawrth 2022, gyda'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r opsiwn. Byddai hyn wedi galluogi penderfyniad prynu, proses drafod a dyddiad cwblhau diweddarach; y cyfan yn cael ei bennu gan asesiad manwl Llywodraeth Cymru o gynllun busnes llawn Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Nid oedd yr opsiynau a gyflwynwyd i'r Gweinidog yn cynnwys defnyddio cyllideb ariannu wahanol a gohirio prynu Fferm Gilestone nes bod diwydrwydd dyladwy ar gynllun busnes llawn gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd wedi cael ei gwblhau; gan felly osgoi'r cyfyngiad amser i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2022 (gweler uchod). Yn ein barn ni, dylid bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r opsiwn hwnnw.

Roedd esboniadau swyddogion wrth y Gweinidog ynglŷn â sail resymegol Llywodraeth Cymru dros brynu Fferm Gilestone yn seiliedig ar gynnig / cynllun busnes amlinellol cychwynnol gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd, a gafodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021, ac roeddent wedi'u nodi yn y Cyngor Gweinidogol perthnasol. Roedd y Cyngor Gweinidogol dyddiedig 22 Mawrth 2022 (ynghylch prynu'r eiddo a'i roi ar adles i'r gwerthwr) yn datgan bod yr eiddo'n cael ei brynu i roi cymorth i ehangu Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn y dyfodol trwy alluogi Plant Pot Limited[11] i brynu neu

---

[11] Plant Pot Limited ('PPL') yw'r cwmni sy'n trefnu Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Mewn gwirionedd, nid yw Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn cynnwys gweithredu safle Gilestone gan PPL. Yn lle hynny, fe ffurfiodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd gwmni newydd ar gyfer y fenter, Cwningar Ltd, a gorfforwyd ar 22 Chwefror 2022. Roedd y Cyngor Gweinidogol yn

brydlesu'r Eiddo, oherwydd bod cyfyngiadau ar yr ŵyl ar hyn o bryd a achosir gan y diffyg tir sydd ar gael i dderbyn y nifer o ymwelwyr y gellid eu denu i'r digwyddiad.[12] Yn ein barn ni, roedd y datganiadau hyn yn awgrymu mai cynyddu capasiti ymwelwyr yr Ŵyl oedd y prif amcan wrth brynu'r Fferm ac y byddai rhai o weithgareddau presennol yr Ŵyl yn adleoli o Ystâd Glanwysg i Fferm Gilestone. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ers hynny nad dyma yw ac nad dyma oedd ei bwriad mewn gwirionedd, ac mai ei bwriad yw cefnogi estyniad brand y Dyn Gwyrdd a helpu i sicrhau ei ddyfodol yng Nghymru.

Yn dilyn cwblhau'r gwerthiant, ar 15 Mai 2022, aeth swyddogion gweithredol Gŵyl y Dyn Gwyrdd i un o gyfarfodydd Cyngor Cymuned Talybont-ar-Wysg ac fe wnaethant egluro na fyddai Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn adleoli i Fferm Gilestone ond y gallai gynnal nifer o ddigwyddiadau llai bob blwyddyn; eu bod yn bwriadu i'r tir fferm ddal i gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol; i'r llety gael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl a thwristiaeth; a'u bod yn bwriadu rhoi cefnogaeth i fentrau bach penodol ddatblygu dan frand Gŵyl y Dyn Gwyrdd.

## A gymerodd Llywodraeth Cymru gamau priodol i ddiogelu gwerth am arian o arian cyhoeddus?

Cyn prynu Fferm Gilestone a'i lesio'n ôl i'r gwerthwr dan gytundeb byrdymor, fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru brisiad eiddo annibynnol, cyngor ynghylch prydlesu a chwiliadau cyfreithiol, a oedd yn gyson â gwneud penderfyniadau o'r fath; gan gydnabod y gallai fod angen cyngor pellach mewn perthynas ag unrhyw brydles ychwanegol, gwerthiant ymlaen, neu newidiadau i ddefnydd yn y dyfodol.

Cytunwyd i werthu'r eiddo am £4.250 miliwn, yn erbyn prisiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi mai £4.325 miliwn fyddai pris y farchnad. Cyn cael ei phrisiad annibynnol ei hun, cafodd Llywodraeth Cymru weld

---

awgrymu, pe bai Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynlluniau busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd, y byddai Plant Pot Limited yn ymrwymo i brydles fyrdymor i reoli'r eiddo cyfan o fis Tachwedd 2022 tan fis Ionawr 2023, ac yn ystod y cyfnod hwnnw y byddai negodiadau ynglŷn â phrynu neu brydlesu'r eiddo ganddo ar sail hirdymor yn cael eu cwblhau.

[12] Roedd yr ddatganiad hwn wedi'i gynnwys yn y nodyn Cyngor Gweinidogol dyddiedig 10 Mawrth 2022 a oedd yn ymwneud â ffioedd proffesiynol hefyd.

adroddiad prisio ar wahân a gomisiynwyd gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd a oedd yn nodi mai £4.250 miliwn oedd gwerth yr eiddo. Roedd y Cyngor Gweinidogol yn nodi, pe na bai Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn prynu'r Fferm nac yn ei phrydlesu gan Lywodraeth Cymru y gallai farchnata'r safle i'w werthu ar y farchnad agored ac adennill ei fuddsoddiad.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cael crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg o'r adeiladau ar 16 Mawrth 2022 a'r adroddiad prisio ar 17 Mawrth 2022, cyn cyflwyno cyngor i'r Gweinidog ar 23 Mawrth, er mai dim ond ar 28 a 30 Mawrth yn y drefn honno y cafwyd adroddiadau llawn ar yr arolwg o'r adeiladau a theitlau cyfreithiol; yn union cyn cwblhau'r gwerthiant ar 31 Mawrth a chan adael amser cyfyngedig i'w hystyried yn llawn.

Roedd y nodyn Cyngor Gweinidogol ar gyfer y penderfyniad ynglŷn â phrynu'n cynnwys dadansoddiad cryno o'r risgiau, y goblygiadau ariannol a chrynodeb o faterion cyfreithiol a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:

- Costau eiddo posibl o £166,000, gan gynnwys rheoli'r eiddo'n gyffredinol;
- Ansicrwydd ynghylch hawliau mynediad a hawliau saethu, a ddelir gan drydydd partïon;
- Mai cyfrifoldeb Gŵyl y Dyn Gwyrdd fyddai'r angen i unrhyw ddefnyddiau yn y dyfodol gydymffurfio â rheoliadau mewn perthynas â chynllunio, a bioamrywiaeth.

Ar ben hynny, ni wyddys eto a yw Llywodraeth Cymru'n teimlo y gall gefnogi cynlluniau busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar gyfer safle Fferm Gilestone. Pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu peidio â chefnogi cynlluniau Gŵyl y Dyn Gwyrdd, efallai y byddai angen canfod defnydd arall neu (fel a awgrymwyd yn y Cyngor Gweinidogol) werthu'r ased ar y farchnad agored. Er ei bod wedi cael prisiad annibynnol o'r safle a oedd £75,000 yn uwch na'r pris prynu gwirioneddol, pe bai'r eiddo'n cael ei werthu ymlaen efallai na fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu adennill:

- Y pris prynu llawn, naill ai oherwydd amodau'r farchnad neu oherwydd bod y safle wedi'i wahanu'n lotiau ar wahân[13], y mae eu cyfanswm yn werth llai na'r safle cyfan mewn un lot.

- Costau gwneud atgyweiriadau, gan gynnwys i'r ffermdy (adeilad rhestredig Gradd II). Roedd yr adroddiad arolygu adeiladau proffesiynol llawn (dyddiedig 28 Mawrth 2022) yn nodi costau atgyweirio o £168,600 yn ystod y flwyddyn gyntaf a £27,750 ychwanegol ymhen 6 – 10 mlynedd.[14]

- Ffioedd proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â'r pryniant cychwynnol a gwerthu ymlaen.

- Costau amser staff Llywodraeth Cymru a oedd yn gysylltiedig â'r trafodiad; asesu achos busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn barhaus a chyfathrebu wedi hynny sy'n cynnwys briffio Gweinidogion; darparu gwybodaeth i ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn y Senedd; ac ymateb i'r cyhoedd a'r cyfryngau. Bu angen mewnbwn sylweddol ar gyfer y rhain i gyd, gan gynnwys gan uwch swyddogion.

O ganlyniad, trwy gaffael yr eiddo ar hap, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn risgiau ariannol na fyddent wedi codi pe bai wedi oedi cyn gwneud penderfyniad terfynol ynglŷn â phrynu tan ar ôl iddi orffen rhoi ystyriaeth lawn i gynlluniau Gŵyl y Dyn Gwyrdd, ac addasrwydd Fferm Gilestone ar gyfer defnyddiau bwriadedig yn y dyfodol (gweler uchod).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i ni ei bod, hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2022, wedi ysgwyddo costau uniongyrchol yn ymwneud â chaffael oddeutu £60,000, ac ar hyn o bryd mae'n rhagweld costau pellach yn ymwneud â rheoli'r Fferm o tua

---

[13] Y cynnig ar gyfer rhannu'r eiddo oedd y byddai Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn prynu'r ffermdy a'r adeiladau o'i amgylch, a Llywodraeth Cymru'n prynu'r tir fferm a'r adeiladau amaethyddol ac yna'n rhoi'r rhannau hyn o'r eiddo ar brydles i Ŵyl y Dyn Gwyrdd.

[14] Roedd Knight Frank (ar 16 Mawrth 2022) wedi darparu amcangyfrif is i Lywodraeth Cymru o gostau atgyweirio a chydymffurfio statudol, sef £54,000 a ffioedd, ar gyfer y ffermdy yn unig, a ddefnyddiwyd i oleuo'r cyngor a ddarparwyr ar gyfer y Gweinidog.

£57,000[15]. Gallai rhai o’r costau hyn gael eu gwrthbwyso trwy incwm gosod a chyfrannau o’r elw a gynhyrchir gan weithrediadau ffermio a gweithrediadau masnachol eraill ar y safle.

## A yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfrif priodol am ei gweithredoedd a’r rhesymau drostynt, mewn ymateb i graffu dilys gan y Senedd ac yn gyhoeddus?

Ar 13 Mai 2022, fe gyhoeddodd y BBC eitem newyddion y byddai trefnwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn rhedeg Fferm Gilestone, a oedd wedi cael ei phrynu gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr erthygl yn dweud bod disgwyl i’r ŵyl ei hun aros ar ei safle presennol ar Ystâd Glanwysg. Gwrthododd Llywodraeth Cymru a Gŵyl y Dyn Gwyrdd ddarparu sylwadau.

Ar 18 Mai 2022, gofynnwyd cwestiwn yn y sesiwn lawn yn y Senedd, yn gofyn i Weinidog yr Economi wneud datganiad ar y pryniant. Mewn ymateb, fe wnaeth y Gweinidog gadarnhau’r pris prynu a bod hwn wedi’i ategu gan brisiad annibynnol. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod trafodaethau’n mynd rhagddynt gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd, yn amodol ar gael cynllun busnes llawn. Aeth y Gweinidog ymlaen i bwysleisio dymuniad Llywodraeth Cymru i gadw’r ŵyl yng Nghymru. Wedyn cyflwynodd Aelodau’r Senedd amryw gwestiynau ysgrifenedig i Weinidog yr Economi.

Ar 19 Mai 2022, a hithau wedi’i hysgogi yn ôl pob golwg gan y newyddion a oedd wedi torri, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiadau ar benderfyniadau mewn perthynas â’r penderfyniadau ar 16 Mawrth 2022, yn awdurdodi gwariant ar wasanaethau proffesiynol a oedd yn gysylltiedig â’r pryniant; ac ar 24 Mawrth 2022, yn cymeradwyo prynu’r Fferm a’i rhoi ar adles i’r gwerthwr. Mae’r adroddiadau hyn ar y penderfyniadau yn syml yn cofnodi’r penderfyniadau a wnaed, heb ddarparu unrhyw fanylion, rhesymau na chyd-destun.

[15] Bras amcan yw’r costau gan bod y sefyllfa derfynol o ran TAW yn aneglur. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru brynu’r eiddo heb TAW ac nid yw wedi dewis codi TAW eto. Hefyd, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw gostau posib sy'n deillio o gynnal arolwg asbestos yn gynnar yn 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu bod adroddiadau ar benderfyniadau'n cael eu cyhoeddi fel mater o drefn cyn gynted ag y bo penderfyniad wedi cael ei wneud gan Weinidogion, ond y bydd swyddogion polisi'n ymwybodol o unrhyw gyhoeddusrwydd neu faterion sensitif mewn perthynas â phenderfyniad ac y gallant felly gynghori Gweinidogion ynghylch pryd y cyhoeddir adroddiad ar benderfyniad. Rydym yn nodi bod 8 wythnos wedi mynd heibio rhwng y penderfyniad i brynu a chyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ni fod y rheswm dros yr oedi ymddangosol yn ymwneud â chyfuniad o ffactorau, gan gynnwys bod eisiau rheoli'r cyfathrebiadau a'r cyhoeddusrwydd ynglŷn â'r trafodiad, sensitifrwydd masnachol y trafodiad ac, yn fwy cyffredinol, blaenoriaethau llwyth gwaith a oedd yn cystadlu â'i gilydd. Nid ydym wedi cael ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw gyfathrebu uniongyrchol gyda Gweinidog yr Economi ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r adroddiadau ar benderfyniadau cyn i'r newyddion am y pryniant dorri, ac eithrio'r canlynol:

- Roedd y Cyngor Gweinidogol dyddiedig 22 Mawrth 2022 yn nodi bod angen Adroddiad ar Benderfyniad, a allai gael ei gyhoeddi, mewn perthynas â'r penderfyniad a hefyd y byddai cyhoeddiad wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfryngau'n cael ei wneud yn dilyn y penderfyniad; a hefyd
- Penderfyniad ysgrifenedig y Gweinidog ar 24 Mawrth 2022, sy'n datgan y dylai'r Adroddiad ar Benderfyniad gael ei ddal yn ôl nes gwneir unrhyw gyhoeddiad.

Ar 31 Rhagfyr 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymatebion i 26 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â phrynu'r Fferm (rhwng 14 Mehefin 2022 a 27 Hydref 2022). O'r rhain, ar dri achlysur, yn dilyn adolygiadau mewnol, fe benderfynodd Llywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth. Canfu ein hadolygiad ni ein hunain o'r ymatebion Rhyddid Gwybodaeth ddau achos lle dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd ganddi wybodaeth a oedd o fewn cwmpas y ceisiadau, ond lle'r ymddengys o ymatebion diweddarach fod Llywodraeth Cymru'n meddu ar yr wybodaeth y gofynnwyd amdani. Rydym wedi amlygu'r enghreifftiau hyn yn **Atodiad 2** wrth y llythyr hwn sy'n nodi cronoleg y ceisiadau am wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a'r dull a ddefnyddiwyd i ymateb i bob cais. Yn ein barn ni, bu anghysonderau yn y dulliau a ddefnyddiwyd wrth ymateb i geisiadau tebyg am wybodaeth ynghylch prynu'r Fferm.

Bu adroddiadau a dyfalu sylweddol yn y cyfryngau hefyd ynghylch cynlluniau ar gyfer Fferm Gilestone a'i haddasrwydd, yn ogystal â gohebiaeth at y PCCGG oddi wrth ystod o bartïon â buddiant. Yn ein barn ni, gellid bod wedi osgoi llawer o'r sylw yma pe bai'r penderfyniad i brynu wedi dilyn yn hytrach na rhagflaenu ystyriaeth i gynllun busnes llawn; pe bai hynny wedi digwydd byddai Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cyfrif mwy manwl ac amserol o'i gweithredoedd a'i sail resymegol.

## Gwaith archwilio posibl yn y dyfodol

Hyd yma, nid ydym wedi rhoi ystyriaeth uniongyrchol i ddyfodol y safle na chymorth posibl cysylltiedig i Ŵyl y Dyn Gwyrdd. Maes o law, efallai y byddwn yn gwneud gwaith archwilio pellach i gynnal archwiliad ôl-weithredol o broses benderfynu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion hyn, ac yn arbennig:

- Tegwch gweithdrefnol, sut y gwneir penderfyniadau i roi neu beidio â rhoi cymorth ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol i sefydliadau neu unigolion penodol, gan gynnwys presenoldeb gwyrduedd neu driniaeth ffafriol;
- Pa un a yw penderfyniadau a wnaed yn flaenorol yn llyffetheirio'r disgresiwn i wneud penderfyniadau dilynol yn ôl eu rhinweddau; a
- Gwerth am arian, gan gynnwys effaith a deilliannau unrhyw benderfyniadau o'r fath.

Wrth wneud unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y safle, o ystyried ei leoliad ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a phresenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill â chyfrifoldebau perthnasol) roi ystyriaeth fanwl i ddyletswyddau dan y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru;
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i gynnal a gwella bioamrywiaeth; ac
- Unrhyw ofynion cyfreithiol neu ddisgwyliadau rhesymol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

Yn ei lythyr atoch dyddiedig 26 Medi 2022, yn dilyn sesiwn dystiolaeth y PCCGG ar 14 Gorffennaf 2022, eglurodd Andrew Slade nad yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal dadansoddiad economaidd o Ŵyl y Dyn Gwyrdd ei hun ond y bydd yn cynnal

diwydrwydd dyladwy o fanteision economaidd y gweithgareddau a gynigir yn Fferm Gilestone. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd hefyd yn archwilio sefyllfa ariannol a strwythur grŵp cwmnïau sy'n gysylltiedig â Gŵyl y Dyn Gwyrdd ac yn asesu sut y gallai hawliau saethu a physgota trydydd partïon, a chyfyngiadau ecolegol ac amgylcheddol, effeithio ar y gweithgareddau a gynigir ar gyfer y safle. Gallai unrhyw waith archwilio yn y dyfodol gynnwys gwirio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r materion hyn mewn unrhyw benderfyniadau pellach.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 1 – Llinell Amser Caffael Fferm Gilestone

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru a Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn cychwyn trafodaethau ynglŷn â'r potensial i gefnogi twf y brand yng Nghymru, ac o ganlyniad mae Llywodraeth Cymru'n cynnal chwiliad o dir a berchnogir gan Lywodraeth Cymru. | Medi 2019 | Ni chanfu'r chwiliad o dir a berchnogir gan Lywodraeth Cymru unrhyw eiddo addas ar gyfer Gŵyl y Dyn Gwyrdd. |
| Fiona Stewart o Ŵyl y Dyn Gwyrdd yn mynegi ei diddordeb yn Fferm Gilestone wrth y perchennog [ar y pryd]. | 2019 - 2020 | Fel un o drigolion Powys, rydym yn deall bod Fiona Stewart wedi dod yn ymwybodol trwy glywed ar lafar gwlad y byddai Fferm Gilestone yn lleoliad addas ar gyfer uchelgeisiau Gŵyl y Dyn Gwyrdd.<br><br>Eglurodd y ddau barti wrthym eu bod wedi cael trafodaethau yn ystod y cyfnod hwn ond nid oeddent yn gallu dweud yn union pryd. Ni wnaed unrhyw gynigion ffurfiol, a chafwyd diwedd amhendant i'r trafodaethau. |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o’r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Darparu Prosbectws McCartneys[16] i ddarpar brynwr. | Chwefror 2020 | Rydym wedi cadarnhau efo McCartneys bod prosbectws eiddo wedi cael ei greu ym mis Rhagfyr 2015 ar gyfer y perchennog [ar y pryd] ac wedi cael ei rannu’n breifat gyda nifer fach o ddarpar brynwyr yn 2016. Ar yr adeg honno £3.25 miliwn oedd y pris a ofynnir oedd yn cael ei ddyfynnu yn y prosbectws.<br><br>Ym mis Chwefror 2020, rydym yn deall bod yr un prosbectws wedi'i rannu ag un parti â diddordeb ynghyd ag e-bost a oedd yn egluro bod pris gofyn wedi'i ddiweddaru o £4.25 miliwn. Tynnodd y parti oedd â diddordeb yn ôl eu diddordeb yn Fferm Gilestone yn ddiweddarach yr un flwyddyn. Ar adeg cyhoeddi'r llythyr hwn roeddem wedi gofyn amdano, ond heb dderbyn, gopi o'r e-bost. |
| Llywodraeth Cymru’n cael ‘Amlinelliad o Gynllun Busnes’ gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd. | 01 Hydref 2021 | Cafodd Llywodraeth Cymru ‘Amlinelliad o Gynllun Busnes’ gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd. Mae’r ddogfen lefel-uchel yn darparu trosolwg o’r hyn yr hoffai’r brand ei gyflawni trwy sicrhau safle parhaol yng Nghymru, gan alluogi’r |

[16] Y “Prosbectws McCartneys” y cyfeirir ato yma yw’r set o fanylion a rannwyd gyda’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 ac y cafodd rhan ohoni ei chylchredeg ar-lein hefyd gan Aelod o’r Senedd ar 21 Mehefin 2022.

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | busnes presennol i dreblu mewn maint dros bum mlynedd. Mae'r ddogfen yn manylu ar y canlynol:<br>• Effaith economaidd yr Ŵyl bresennol, gan ddyfynnu adroddiad ymgynghori a gomisiynwyd gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd (Adroddiad BOP Consulting 2018).<br>• Cynnig ar gyfer defnyddio'r safle, gan gynnwys glampio a llety gwyliau; deori busnesau bach i arallgyfeirio brand Gŵyl y Dyn Gwyrdd; cynnal rhaglen o wyliau blynyddol a digwyddiadau llai; datblygu busnes iechyd da a chyfleuster mewn arddull sba<br>• Gofynion penodol Gŵyl y Dyn Gwyrdd ar gyfer safle addas.<br>• Trosolwg o'r farchnad digwyddiadau.<br>• Astudiaethau achos o ddatblygu cynnyrch a brandio.<br><br>Eglurodd gohebiaeth bellach oddi wrth Ŵyl y Dyn Gwyrdd y byddai eu cynnig yn cynnwys dau gam<br>• Cam 1 – Prynu safle parhaol (fferm/ystâd) yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru i gael ei roi ar brydles i Ŵyl y Dyn Gwyrdd yn ôl y gyfradd ar gyfer gweithgarwch masnachol sy'n digwydd ar y tir ar hyn o bryd. Wedyn, byddai gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd gyfle i brynu'r safle gan Lywodraeth Cymru am y pris prynu gwreiddiol.<br><br>• Cam 2 – Cyflawni gweithgarwch datblygu busnes pellach unwaith y mae'r safle wedi cael ei gaffael. |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | Awgrymodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd hefyd y gallai manteision economaidd ychwanegol eu cynnig i gael safle parhaol gynhyrchu £10 miliwn i economi Cymru ar ben ei hasesiad presennol o fanteision sy'n deillio o Ŵyl y Dyn Gwyrdd. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr honiadau hyn ynglŷn â manteision ychwanegol yn rhan o broses benderfynu ffurfiol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pryniant, er bod materion a oedd yn ymwneud â chadw manteision economaidd presennol sy'n deillio o'r Ŵyl wedi cael eu hystyried. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd | 22 Hydref 2021 | Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn rhithwir. Ni chofnodwyd unrhyw nodiadau o'r cyfarfod ac felly nid ydym yn gallu cadarnhau'r hyn a drafodwyd. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd i drafod Fferm Gilestone | 26 a 28 Ionawr 2022 | Cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ni mai galwad ffôn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr oedd y tro cyntaf iddynt hwy gael eu hysbysu ynghylch argaeledd posibl Fferm Gilestone.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir ar 28 Ionawr, gan gyflwyno'r swyddog yn Llywodraeth Cymru a fyddai'n arwain ar y trafodiad yn y pen draw.<br><br>Ni chafodd yr alwad ffôn yma a'r cyfarfod wedi hynny eu cynnwys yn yr ymateb a ddarparwyd i'r cwestiwn ysgrifenedig 'WQ85337' a gyflwynwyd gerbron ar 30 Mai 2022 ac a oedd yn gofyn am fanylion cyfarfodydd rhwng |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | y Gweinidog neu swyddogion a Gŵyl y Dyn Gwyrdd mewn perthynas â Fferm Gilestone.<br><br>Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei sylwadau ysgrifenedig i ategu sesiwn dystiolaeth y PCCGG ar 14 Gorffennaf 2022, ac mewn gohebiaeth ddilynol wedyn ar 26 Medi 2022, fod Gŵyl y Dyn Gwyrdd wedi dwyn Fferm Gilestone i'w sylw gyntaf ym mis Chwefror 2022. |
| Fiona Stewart o Ŵyl y Dyn Gwyrdd yn cysylltu ag Arweinydd Cyngor Sir Powys trwy E-bost | 30 Ionawr 2022 | Mae Fiona Stewart yn cysylltu ag Arweinydd Cyngor Sir Powys i ennyn cefnogaeth i fentrau posibl yn Fferm Gilestone, gan gynnwys gŵyl, a sicrwydd ysgrifenedig i'w ddarparu ar gyfer Llywodraeth Cymru y byddai cais am drwydded ar gyfer digwyddiadau'n cael ei gefnogi.<br><br>Rhyddhaodd Cyngor Sir Powys yr e-bost mewn ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth ar 24 Hydref 2022. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru'n ceisio cymeradwyaeth gan Weinidog yr Economi i archwilio'r cyfle i Lywodraeth Cymru brynu Fferm Gilestone | 02 a 07 Chwefror 2022 | Ar 02 Chwefror, anfonodd swyddogion Llywodraeth Cymru neges e-bost at ysgrifennydd preifat Gweinidog yr Economi yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnal trafodaethau pellach ynglŷn â phrynu Fferm Gilestone. Cafodd gwybodaeth gefndir am y trafodiad a Gŵyl y Dyn Gwyrdd ei hegluro wrth y Gweinidog. Eglurwyd hefyd y gallai'r trafodiad gael ei ariannu ar yr amod bod y trafodiad yn cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol. £3.5 miliwn oedd yr amcan bris y cyfeiriwyd ato yn y cyfathrebiad gyda'r Gweinidog. |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | Nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n gallu egluro wrthym beth oedd y sail ar gyfer yr amcangyfrif hwn.<br><br>Ar 07 Chwefror, fe gytunodd Gweinidog yr Economi y dylai swyddogion barhau â thrafodaethau. |
| Mae Llywodraeth Cymru'n cysylltu â Knight Frank drwy e-bost yn cadarnhau gwybodaeth gefndirol am y trafodiad arfaethedig wedi trafodaeth mewn galwad ffôn ar yr un diwrnod. | 9 Chwefror 2022 | Dyma'r ohebiaeth gyntaf a ddogfennwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'i phriswyr Knight Frank. Ar y cam hwn y trafodiad a gynigiwyd oedd bod Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn prynu'r ffermdy a'r adeiladau o'i amgylch a bod Llywodraeth Cymru'n prynu'r tir fferm ac adeiladau amaethyddol, ac wedyn yn rhoi'r rhan honno i'r eiddo ar brydles i Ŵyl y Dyn Gwyrdd. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd | 11 Chwefror 2022 | Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn rhithwir. Ni chofnodwyd unrhyw nodiadau o'r cyfarfod ac felly nid ydym yn gallu cadarnhau'r hyn a drafodwyd. |
| Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn gyrru ymlaen e-bost at Lywodraeth Cymru gan Gyngor Sir Powys yn mynegi mewn egwyddor | 11 Chwefror 2022 | Cafodd Llywodraeth Cymru wybod fod y Cyngor yn gefnogol i gynigion y Dyn Gwyrdd. Rhannodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd e-bost a dderbyniodd gan |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o’r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| gefnogaeth i ddatblygu Fferm Gilestone | | Arweinydd Gweithredol[17] y Cyngor ar 10 Chwefror 2022 sy'n dangos cefnogaeth i'r prosiect mewn egwyddor, mewn ymateb i e-bost Fiona Stewart o 30 Ionawr. |
| Negeseuon e-bost yn cael eu cyfnewid rhwng un o swyddogion Llywodraeth Cymru ac un o swyddogion Cyngor Sir Powys. | 1 Mawrth 2022 | Mae’r swyddog yn Llywodraeth Cymru’n gofyn am gyngor neu sylwadau ynghylch datblygu Fferm Gilestone ar gyfer digwyddiadau a busnesau cysylltiedig o safbwynt trwyddedu. Mae’r swyddog yn y Cyngor yn ymateb gan ddweud bod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ond bod y Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor. |
| Cyfarwyddiadau trwy’r e-bost i Knight Frank | 01 Mawrth 2022 | Hwn yw’r cyfarwyddyd ffurfiol i Knight Frank gynnal prisiad ac arolygon o Fferm Gilestone dan y fframwaith SEWTAPS. Cyfarwyddwyd Knight Frank i wneud y canlynol:<br>• Darparu Prisiad o’r Fferm ar y Farchnad Werthu a Phrisiad o’r Fferm ar y Farchnad Rentu ac adroddiadau ategol eraill ar yr Eiddo Dan Sylw. Bydd y gwaith prisio’n cael ei wneud ar sail rhannu’r fferm *(fel uchod)*, ac ar sail fferm gyfan.<br>• Cynnal arolwg o’r adeiladau ac asbestos |

[17] Arweinydd Gweithredol Cyngor Sir Powys ar 11 Chwefror 2022 oedd y Cynghorydd Rosemarie Harris.

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | • Rhoi cyngor ar Benawdau'r Telerau[18] ar gyfer y posibilrwydd o brynu'r Eiddo Dan Sylw a'i osod yn y dyfodol.<br><br>Er bod y cyfarwyddyd hwn yn cynnwys gofyniad am arolwg asbestos, cadarnhaodd Knight Frank wrthym nad ydynt yn cynnal arolygon asbestos ond eu bod wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru bod asbestos yn debygol o fod yn bresennol ar y safle. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru wrthym, er iddo gyfarwyddo Knight Frank i gynnal arolwg asbestos i ddechrau, daeth i'r amlwg yn ddiweddarach na fyddai'r arolwg yn bosibl erbyn 31 Mawrth 2022 oherwydd y byddai wedi bod angen is-gontractio hynny. Felly, ni chafodd unrhyw arolwg asbestos ei gaffael cyn y caffaeliad[19]. |
| Dyddiad Prisiad ac Arolygiad Knight Frank | 02 Mawrth 2022 | Fe gynhaliodd Knight Frank eu harolygiad ar y dyddiad hwn ac fe ddarparon nhw brisiad yn seiliedig ar y dyddiad hwn. |

---

[18] Dogfen sy'n nodi telerau trafodiad masnachol y cytunwyd arnynt mewn egwyddor rhwng partïon yn ystod negodiadau

[19] Ar 31 Rhagfyr 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arolwg asbestos drwy ei ddarparwr gwasanaethau rheoli cyfleusterau ond nid yw wedi derbyn y canlyniadau eto.

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Blake Morgan (cyfreithwyr allanol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru) yn dechrau ymholiadau cyfreithiol. | 04 Mawrth 2022 | Dechreuodd Blake Morgan eu hymholiadau cychwynnol, ac fe gwblhawyd rhagor o ohebiaeth/ymholiadau yn ystod mis Mawrth 2022 hefyd. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd | 07 Mawrth 2022 | Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn rhithwir. Ni chofnodwyd unrhyw nodiadau o'r cyfarfod ac felly nid ydym yn gallu cadarnhau'r hyn a drafodwyd. |
| Cyngor Gweinidogol ar gyfer penodi ymgynghorwyr proffesiynol a ddefnyddiwyd i gaffael Fferm Gilestone yn cael ei anfon at Weinidog yr Economi. | 10 Mawrth 2022 | Gofynnwyd i'r Gweinidog gymeradwyo gwariant hyd at £0.06 miliwn gan gynnwys TAW ar gyfer cyngor cyfreithiol a chyngor ym maes eiddo mewn perthynas â'r posibilrwydd o gaffael yr eiddo dan sylw a'i roi ar brydles. Roedd y cyngor i'r Gweinidog hefyd yn cynnwys gwybodaeth gefndir a oedd yn cwmpasu diben y trafodiad, y cynnig a oedd yn cael ei archwilio ar yr adeg honno a'r 'gofyniad' i gwblhau'r trafodiad o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol (h.y. erbyn 31 Mawrth 2022).<br><br>Nid oedd y Cyngor Gweinidogol yn ei gwneud yn glir bod y dewis ymgynghorwyr proffesiynol eisoes wedi cael comisiwn a'u bod wedi dechrau gwneud eu gwaith cyn i swyddogion geisio cymeradwyaeth ar gyfer y gwariant. |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o’r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Arolwg o’r Adeiladau wedi’i gwblhau gan Knight Frank | 11 Mawrth 2022 | Cwblhaodd Knight Frank Arolwg o Adeiladau a oedd yn cynnwys y 10 eiddo yn Fferm Gilestone. Darparwyd crynodeb o’r arolwg ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 16 Mawrth 2022 gyda’r adroddiad ffurfiol yn cael ei anfon ar 28 Mawrth 2022. |
| Y Gwerthwr yn cytuno ar Benawdau’r Telerau | 14 Mawrth 2022 | Cafodd Penawdau’r Telerau ar gyfer y Gwerthiant a’r Adles eu cytuno gan y Gwerthwr, yn amodol ar gadarnhau’r pris a chymeradwyaeth ffurfiol. |
| Staff cyllid a’r Uned Llywodraethu Corfforaethol yn clirio’r Cyngor Gweinidogol ar gyfer Caffael Fferm Gilestone. | 15 ac 16 Mawrth 2022 | Cafodd y nodyn Cyngor Gweinidogol drafft ei rannu gyda’r timau perthnasol ar gyfer cliriad gan staff cyllid a’r Uned Llywodraethu Corfforaethol ar 15 Mawrth 2022.[20]<br><br>Cadarnhaodd yr Uned Llywodraethu Corfforaethol fod y cyngor yn newydd a dadleuol, gan bod diffyg achos busnes i ategu’r cynnig, ac fe geisiodd gadarnhad pellach gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid yng Ngrŵp yr |

[20] Oherwydd cyfyngiadau ar system rheoli dogfennau Llywodraeth Cymru nid ydym wedi gallu cael y fersiwn o’r ddogfen Cyngor Gweinidogol a anfonwyd ar 15 Mawrth 2022. Rydym yn deall bod y newidiadau rhwng y fersiwn hon a’r fersiwn derfynol a anfonwyd at y Gweinidog yn newidiadau a wnaed yn dilyn cael cyngor proffesiynol pellach ac mewn ymateb i argymhellion gan y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo (PLT).

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol eu bod yn fodlon derbyn y risg a'r cynnig.<br><br>Cadarnhaodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol eu bod yn fodlon, gan nodi'r risg a swm cymharol isel ar 16 Mawrth 2022.<br><br>Hefyd, darparwyd cliriad ariannol gan y grŵp cyllid perthnasol ac Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth. |
| Gweinidog yr Economi'n cytuno â'r argymhelliad yn y Cyngor Gweinidogol ar gyfer y gwasanaethau proffesiynol mewn perthynas â chaffael Fferm Gilestone. | 16 Mawrth 2022 | Gweinidog yr Economi'n cytuno â'r argymhelliad yn y Cyngor Gweinidogol dyddiedig 10 Mawrth 2022. Mae'r cyngor yn ymwneud â'r gwasanaethau proffesiynol a oedd yn ofynnol ar gyfer caffael Fferm Gilestone. |
| Cael crynodebo ganlyniadau'r Arolwg o'r Adeiladau | 16 a 17 Mawrth 2022 | Darparodd Knight Frank grynodeb i Lywodraeth Cymru o ganfyddiadau ei arolwg o'r adeiladau trwy e-bost. Mae'r e-bost yn darparu crynodeb o adeiladau yn y fferm ac yn egluro rhai materion cyfreithiol.<br><br>Yn ogystal, darparwyd amcangyfrif o'r costau ar gyfer atgyweirio mewnol, materion cydymffurfio statudol ac atgyweiriadau allanol ar gyfer y ffermdy |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | gyfanswm o £54,000 a ffioedd. Darparwyd amcangyfrif pellach o gostau ar gyfer yr holl adeiladau ar y safle gan Knight Frank gwerth £166,000. |
| Llofnodi'r Telerau Ymrwymo gyda Knight Frank | 17 Mawrth 2022 | Cafodd y telerau ymrwymo rhwng Llywodraeth Cymru a Knight Frank ar gyfer gwasanaethau eiddo eu llofnodi ar 17 Mawrth 2022. Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn gallu ymrwymo i ddefnyddio gwasanaeth Knight Frank dan y fframwaith SEWTAPS[21] cyn llofnodi'r telerau er mwyn i waith ddechrau ar unwaith. |
| Cael yr Adroddiad Prisio | 17 Mawrth 2022 | Cafwyd adroddiad prisio Knight Frank a oedd yn darparu prisiad o'r eiddo cyfan, sef £4,325,000. Byddai'r cynnig i rannu'r eiddo'n ddau lot yn arwain at brisiadau ar wahân ar gyfer yr unedau eiddo, sef £1,620 a £2,200,000. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at golli 'gwerth priodasol' o £505,000 ac fel a gynghorwyd gan Knight Frank, byddai'n lleihau potensial rheoli asedau Llywodraeth Cymru a'i reolaeth dros yr eiddo cyfan. |

[21] SEWTAPS yw fframwaith Gwasanaethau Technegol a Phroffesiynol De Ddwyrain Cymru.

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth Eiddo (PLT) Llywodraeth Cymru'n ystyried caffael y tir | 17 Mawrth 2022 | Rhoddodd y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo ystyriaeth i'r pryniant arfaethedig ar 17 Mawrth 2022 a darparodd argymhellion i'w hymgorffori mewn Cyngor Gweinidogol. Fodd bynnag, cynghorodd y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo y dylai'r Swyddog Achos[22] geisio cymeradwyaeth ar gyfer yr adles ddilynol trwy banel y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo sy'n gyfrifol am drafodion prydlesu. |
| Cael cliriad ar gyfer y Cyngor Gweinidogol terfynol gan grŵp Llywodraethu a Chydymffurfio'r Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol. | 22 Mawrth 2022 | Cafwyd cliriad ar gyfer y fersiwn ddiweddaraf o'r Cyngor Gweinidogol ar ôl gwneud newidiadau yn dilyn cael cyngor proffesiynol pellach ac argymhellion gan y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo.<br><br>Y Dirprwy Gyfarwyddwr sy'n cymeradwyo'r Cyngor Gweinidogol fyddai wedi bod yn gyfrifol am benderfynu a oedd angen ail-ofyn am unrhyw gliriadau blaenorol yn dilyn y newidiadau. Yn yr achos hwn, rydym yn deall eu bod wedi penderfynu nad oedd y newidiadau a wnaed yn ddigon sylweddol i hyn fod yn ofynnol. Yn dilyn gofyn am gliriad terfynol cafodd y grŵp cyllid perthnasol ac Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth eu cynnwys fel derbynyddion copïau. |

[22] Y swyddog yn Llywodraeth Cymru a gyflwynodd y trafodiad i'r Tîm Arweinyddiaeth Eiddo i gael ei ystyried.

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o’r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Cafodd y Cyngor Gweinidogol ar gyfer y pryniant a’r adles fyrdymor ddilynol ei anfon at Weinidog yr Economi. | 23 Mawrth 2022 | Gofynnwyd i’r Gweinidog gytuno ar yr opsiwn canlynol a argymhellwyd:<br>• prynu rhydd-ddaliad Fferm Gilestone yn Nhalybont-ar-Wysg, Powys am £4.25m; a<br>• rhoi’r eiddo ar adles fyrdymor i’r perchennog presennol/gwerthwr am rent rhad at ddibenion rheoli a chynnal a chadw.<br><br>Roedd y cyngor yn cynnwys gwybodaeth gefndir mewn perthynas â’r trafodiad a'r Eiddo Dan Sylw. Ystyriwyd fod y cyngor yn newydd a dadleuol, felly cafodd yr Uned Llywodraethu Corfforaethol weld y cyngor ac fe’i cliriodd ar 26 Mawrth 2022 gan gadarnhau bod “y risgiau a’r mesurau lliniaru sy’n gysylltiedig â’r mater newydd neu ddadleuol wedi cael eu nodi’n briodol yn y cyngor”<br><br>Mae’r cyngor hefyd yn egluro, os na fydd Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn prynu a/neu’n prydlesu Fferm Gilestone, y byddai Llywodraeth Cymru’n gallu marchnata’r safle i’w werthu ar y farchnad agored. Mae’r cyngor yn egluro y bydd prynu a/neu brydlesu’r eiddo’n amodol ar ganlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynllun Busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd.<br><br>Mae’r cyngor yn nodi’r rheswm pam fod angen cwblhau’r pryniant ar neu cyn 31 Mawrth 2022, gan nodi nad oes darpariaeth yng nghyllideb Cymru Greadigol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.<br><br>Roedd derbynyddion a gafodd gopïau o’r cyngor yn cynnwys: |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| | | • Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd<br>• Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd<br>• Dawn Bowden AS, Gweinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip<br><br>Cadarnhaodd paratöwr y cyngor mai amryfusedd gweinyddol oedd peidio â chynnwys y Gweinidog Materion Gwledig fel un o dderbynyddion y cyngor. |
| Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd | 23 Mawrth 2022 | Swyddogion Llywodraeth Cymru'n cwrdd â Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn rhithwir. Ni chofnodwyd unrhyw nodiadau o'r cyfarfod ac felly nid ydym yn gallu cadarnhau'r hyn a drafodwyd. |
| Gweinidog yr Economi'n cytuno â'r argymhelliad yn y Cyngor Gweinidogol i gaffael Fferm Gilestone a'i rhoi ar adles fyrdymor. | 24 Mawrth 2022 | Gweinidog yr Economi'n cytuno â'r argymhelliad yn y Cyngor Gweinidogol dyddiedig 22 Mawrth 2022. Mae'r cyngor yn ymwneud â'r gwasanaethau proffesiynol sy'n ofynnol i gaffael Fferm Gilestone a'i rhoi ar adles fyrdymor |

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o’r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth Eiddo (PLT) Llywodraeth Cymru’n ystyried yr adles fyrdymor.[23] | 24 Mawrth 2022 | Fel a gynghorwyd gan banel y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo dyddiedig 17 Mawrth 2022 cafodd y cytundeb tenantiaeth ei ystyried mewn cyfarfod arall gan banel y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo ar 24 Mawrth 2022. Darparodd y panel argymhellion i’w cynnwys yn y cytundeb tenantiaeth. |
| Cael Adroddiad Arolygu Adeiladau gan Knight Frank | 28 Mawrth 2022 | Darparodd Knight Frank yr adroddiad Arolygu Adeiladau llawn y rhoddwyd crynodeb ohono i Lywodraeth Cymru ar 16 a 17 Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad terfynol yn cynnwys amcangyfrifon o £168,600 am gostau tymor byr a £27,750 arall yn y tymor hir. |
| Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn ymateb i’r nodyn cyngor dyddiedig 22 Mawrth 2022 | 28 Mawrth 2022 | Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd nodi’r cyngor fel derbynnydd copi a dweud os na fwrir ymlaen â’r opsiwn gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd yna y dylid ystyried opsiynau plannu coed ac ynni adnewyddadwy cyn ailwerthu’r Fferm ar y farchnad. |

[23] Cytundeb Tenantiaeth Busnes Ffermio oedd ffurf gyfreithiol yr adles fyrdymor.

| Digwyddiad / Carreg Filltir Allweddol | Pryd | Eglurhad o'r Digwyddiad / y Garreg Filltir Allweddol |
|---|---|---|
| Cael adroddiad terfynol ar deitl gan Blake Morgan | 30 Mawrth 2022 | Darparodd Blake Morgan eu cyngor cyfreithiol/adroddiad ar deitl ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 30 Mawrth 2022. Darparwyd fersiynau drafft o'r adroddiad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 25 Mawrth 2022.<br><br>Fel rhan o'r adroddiad terfynol ar deitl, darparwyd adroddiad cynllunio ar wahân ar 30 Mawrth 2022. |
| Cwblhau'r pryniant a'r adles ddilynol | 31 Mawrth 2022 | Cafodd y trafodiad prynu ac adles ddilynol ei gwblhau ar 31 Mawrth 2022 ac fe drosglwyddwyd perchnogaeth gyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Cafodd y dogfennau cyfreithiol eu llofnodi a'u seilio ar yr un dyddiad. |
| Cael Adroddiad Llifogydd manwl | 01 Ebrill 2022 | Argymhellodd Blake Morgan fod Llywodraeth Cymru'n cynnal asesiad manwl o berygl llifogydd yn seiliedig ar eu chwiliadau cychwynnol gan bod y chwiliad sylfaenol cychwynnol ar gyfer perygl llifogydd wedi nodi bod y perygl llifogydd yn "Uchel". Roedd yr adroddiad ar asesiad pellach o berygl llifogydd a gafwyd ar 01 Ebrill 2022 yn nodi bod y perygl llifogydd ar y cyfan yn "Gymedrol i Uchel". |
| Cyhoeddi Adroddiadau ar Benderfyniadau Llywodraeth Cymru | 19 Mai 2022 | Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiadau ar Benderfyniadau mewn perthynas â'r ffioedd cyngor proffesiynol, a'r trafodiad prynu ac adles. |

# Atodiad 2 – Rhestr o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| ATISN 16312 | 14 Mehefin 2022 | 1. Faint y mae Llywodraeth Cymru wedi'i dalu am Fferm Gilestone, Talybont, Aberhonddu.<br><br>2. Copi o'r cynllun busnes ac unrhyw wybodaeth arall sy'n cyd-fynd ag ef y mae'n rhaid ei bod wedi ei chreu er mwyn i Lywodraeth Cymru wneud ei phenderfyniad. | 1. £4.25 miliwn<br><br>2. Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd esemptiad yn Adran 43[24] Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). |
| ATISN 16331 | 15 Mehefin 2022 | 1. Pryd wnaeth Llywodraeth Cymru brynu Fferm Gilestone, Talybont-ar-Wysg, LD3 7JE; Rhif teitl y | 1. Mawrth 2022 |

[24] Mae Adran 43 yn esemptiad cymhwysol (yn seiliedig ar brawf lles y cyhoedd). Mae gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i hesemptio pe bai ei datgelu dan Ddeddf hon yn peryglu, neu'n debygol o beryglu, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei dal).

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | Gofrestrfa Tir CYM515641?<br><br>2. Faint dalodd Llywodraeth Cymru am yr eiddo hwn?<br><br>3. Pam fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gytundeb gyda Fiona Stewart a Gŵyl y Dyn Gwyrdd i Ms Stewart ac eraill redeg y darn drud hwn o eiddo tirol – y talwyd amdano ag arian cyhoeddus Cymru?<br><br>4. Beth yn union yw'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo gyda Ms Stewart et al?<br><br>5. A gynhaliwyd proses dendro agored ar gyfer rhentu neu brydlesu'r eiddo hwn, neu a oedd yn gytundeb wedi'i wneud yn barod a'r eiddo wedi'i brynu'n benodol ar gyfer Ms Stewart a'i chyfranogion? | 2. £4.25 miliwn<br><br>3. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gytundeb gyda Fiona Stewart a Gŵyl y Dyn Gwyrdd.<br><br>4. Gweler C3.<br><br>5. Nid oedd proses dendro agored ac fe brynwyd yr eiddo gan Lywodraeth Cymru at ddibenion datblygu economaidd. |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| ATISN 16343 | 16 Mehefin 2022 | 1. Copïau o negeseuon e-bost, gohebiaeth ysgrifenedig, cofnodion cyfarfodydd, a phenderfyniadau a wnaed, oddi wrth ac at ac o fewn Adran yr Economi sy'n cynnwys y geiriau "Fferm Gilestone" a/neu "Gŵyl y Dyn Gwyrdd".<br><br>2. Copïau o negeseuon e-bost a gohebiaeth at ac oddi wrth Vaughan Gething sy'n crybwyll "Fferm Gilestone" a/neu "Gŵyl y Dyn Gwyrdd".<br><br>3. Copïau o'r holl gyfathrebiadau gydag adran gynllunio Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.<br><br>4. A fu unrhyw astudiaeth amgylcheddol mewn perthynas â Fferm Gilestone.<br><br>5. Copïau o'r holl brisiadau sy'n ymwneud â Fferm Gilestone. | Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd adran 12 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.<br><br>Rydym yn nodi mai dim ond ymateb cadarnhaol y byddai ei angen i bwynt 4 a bod copi o'r adroddiad prisio a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar Fferm Gilestone wedi cael ei ryddhau'n ddiweddarach mewn ymateb i gais ar wahân ATISN 16423 (gweler isod). |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o’r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o’r Ymateb i’r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo’n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| ATISN 16354 | 24 Mehefin 2022 | 1. Copi o’r holl ohebiaeth rhwng Gweinidog yr Economi (gan gynnwys unrhyw un arall o Weinidogion Cymru neu staff Llywodraeth Cymru) a Fiona Stewart (Rheolwr Gyfarwyddwr Gŵyl y Dyn Gwyrdd).<br><br>2. Copi o’r holl ohebiaeth rhwng Gweinidog yr Economi a Mr Legg-Bourke o Ystâd Glanwysg (neu aelodau o staff y naill neu’r llall).<br><br>3. Rhestr o aelodau o staff Llywodraeth Cymru a oedd yn gwybod am y diddordeb yn Fferm Gilestone ac am ei phrynu.<br><br>4. A oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru’n prynu Fferm Gilestone. | 1. Ar ôl chwilio trwy’r cofnodion ni chanfuwyd unrhyw ohebiaeth rhwng Gweinidog yr Economi a Fiona Stewart mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone. Ni ddatgelwyd gohebiaeth rhwng staff Llywodraeth Cymru a Fiona Stewart oherwydd esemptiad rhag ei datgelu dan Adran 43.<br><br>2. Ni chanfuwyd unrhyw wybodaeth.<br><br>3. Dim ond uwch swyddogion a enwir mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth, a’r swyddogion arweiniol yn yr achos hwn yw Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Gerwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol, Chris Munday, Dirprwy Gyfarwyddwr Datrysiadau Busnes. Tim Howard, Dirprwy Gyfarwyddwr Eiddo, Steve Hudson Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio a Kim Jenkins, Prif Gyfrifydd a Dirprwy Gyfarwyddwr |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | | Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>4. Ni fyddai'r Ysgrifennydd Parhaol wedi bod yn ymwybodol o'r pryniant gan mai trafodiad economaidd safonol a gymeradwywyd gan Weinidog yr Economi ydoedd. |
| ATISN 16366[25] | 30 Mehefin 2022 | 1. A wnaethoch chi Brif Weinidog Cymru a/neu Weinidog yr Economi yn ymwybodol o'ch cysylltiad â Fferm Gilestone trwy fod yn awdur 'Adroddiad James'.<br><br>2. A wnaethoch chi ddatgan buddiant yn nhrafodiad Llywodraeth Cymru i brynu Fferm Gilestone? | Dim gwybodaeth yn cael ei dal ar gyfer Cwestiynau 1-5.<br><br>Cwestiynau 6-9 – Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000<br><br>C10 – Darparwyd dolen i Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. |

[25] Ymddengys fod y cais hwn wedi'i gyfeirio'n benodol at y Gweinidog Newid Hinsawdd yn seiliedig ar yr ymateb a ddarparwyd i'r cais.

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | 3. Copi o ohebiaeth gyda Gweinidog yr Economi ynghylch prynu Fferm Gilestone.<br><br>4. Copi o unrhyw ohebiaeth rhwng John Parson a Llywodraeth Cymru.<br><br>5. Gwybodaeth mewn perthynas ag ymchwiliad Mr Parson i'r modd y mae PCBB wedi bod yn trin Fferm Gilestone.<br><br>6. Copi o'r adroddiad prisio.<br><br>7. Copi o'r dystysgrif cwblhau.<br><br>8. Copi o'r 'ddogfen sylwadau' cyn prynu.<br><br>9. Copïau o anfonebau, arolygon, ffioedd cyfreithiol ac unrhyw wariant ychwanegol mewn perthynas â'r pryniant. | |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | 10. Copi o 'Ddogfen Gweithdrefnau Gweinidogol' mewn perthynas â gwariant Llywodraeth Cymru ar asedau a chap ar wariant ar gyfer Gweinidogion unigol. | |
| ATISN 16383 | 07 Gorffennaf 2022 | 1. Sawl erw o dir yn Nhan-y-Fedw, Crai, Aberhonddu, Powys LD3 8RA y mae Llywodraeth Cymru wedi'i brynu?<br><br>2. Sawl erw o dir yn Nhan-y-Fedw, Crai, Aberhonddu, Powys LD3 8RA y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei brynu? (Er gwybodaeth, mae'r tir a adwaenir fel The Wainhouse, Tan-y-Fedw, Crai, Aberhonddu, Powys LD3 8RA yn perthyn i Gilestone Leisure Limited. Mae'r cais hwn yn cyfeirio at y tir yn y cyfeiriad yng Nghrai)<br><br>3. A yw prynu Fferm Gilestone yn cynnwys parsel o dir yn Nhan-y- | Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad yw wedi prynu unrhyw dir y cyfeirir ato nac yn bwriadu ei brynu ar hyn o bryd. |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | Fedw, Crai, Aberhonddu, Powys, LD3 8RA sef cyfeiriad cofrestredig Gilestone Leisure Limited?<br><br>4. Faint o dir y mae Llywodraeth Cymru wedi neu'n bwriadu ei brynu yn ardal Crai, Aberhonddu, LD3 8RA ers diwedd mis Medi 2020? | |
| ATISN 16316 | 08 Gorffennaf 2022 | Pwy sy'n berchen yn awr ar yr hawliau i'r dyddodion tywod a graean sylweddol o fan Fferm Gilestone | Mae'r wybodaeth hon ar gael yn nheitlau'r Gofrestrfa Tir (h.y. CYM5155577, WA515967, CYM515641, WA521251). Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar yr hawliau i'r dyddodion tywod a graean.<br><br>Rydym yn nodi bod yr wybodaeth hon wedi'i datgelu yn dilyn adolygiad mewnol. |
| ATISN 16388 | 11 Gorffennaf 2022 | 1. Yr holl gyfathrebu mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone<br><br>2. Yr holl gyfathrebu rhwng y Llywodraeth a Gŵyl y Dyn Gwyrdd | Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | ynghylch prynu Fferm Gilestone<br><br>3. Dogfen mewn perthynas â'r ardystiad annibynnol o werth Fferm Gilestone ar y farchnad gan arolygwyr ymgynghorol y Llywodraeth | |
| ATISN 16402 | 13 Gorffennaf 2022 | 1. Unrhyw astudiaethau neu asesiadau amgylcheddol o Fferm Gilestone a ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru cyn ei phrynu gan y Llywodraeth?<br><br>2. Manylion unrhyw ymgyngoriadau â sefydliadau/adrannau Amgylcheddol naill ai o fewn neu'r tu allan i Lywodraeth Cymru? | Comisiynwyd adroddiadau amgylcheddol safonol cyn ei phrynu a byddai adroddiadau pellach yn cael eu llunio ar gyfer unrhyw ddefnydd o'r eiddo yn y dyfodol fel y bo'n briodol. |
| ATISN 16408 | 14 Gorffennaf 2022 | Y cynllun busnes amlinellol mewn perthynas â Fferm Gilestone a ddarparwyd ar gyfer y Llywodraeth ym | Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | mis Hydref 2021 gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd. | |
| ATISN 16405 | 14 Gorffennaf 2022 | Fe ofynnoch chi am gopïau o unrhyw ohebiaeth neu negeseuon e-bost gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone, Talybont-ar-Wysg a chynlluniau ar ei chyfer gan Lywodraeth Cymru | Cadarnhawyd na fu unrhyw gyswllt ag APCBB mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone, Talybont-ar-Wysg a chynlluniau ar ei chyfer. Fodd bynnag, bwriedir ymgynghori â'r Awdurdod fel ymgyngoreion statudol. |
| ATISN 16419 | 18 Gorffennaf 2022 | 1. A oedd Gweinidog yr Economi'n ymwybodol o gytundeb rhwng Charles Weston a Mr G Thomas ynghylch hawliau mwynau ar ôl gwerthu.<br><br>2. A oedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r perygl llifogydd ym mhob cae ond 2.<br><br>3. Copi o'r 'papur sylwadau' a anfonwyd at Weinidog yr Economi | Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi'n cael ei dal ar gyfer cwestiynau 1 a 4.<br><br>Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n ymwybodol bod yr eiddo mewn ardal perygl llifogydd.<br><br>Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar gyfer cwestiwn 3 ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o’r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o’r Ymateb i’r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo’n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone.<br><br>4. Copi o unrhyw ohebiaeth rhwng Charles Weston a Llywodraeth Cymru.<br><br>5. Pam wnaeth y Gweinidog brynu fferm. | Cymeradwywyd prynu Fferm Gilestone gan Weinidog yr Economi at ddibenion datblygu economaidd.<br><br>Rydym yn nodi, o ran cwestiwn 1 yn ATISN16419, bod Llywodraeth Cymru’n ymwybodol o’r cytundeb ynghylch hawliau mwynau cyn y pryniant, er nad ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Gweinidog yr Economi’n ymwybodol. O ran cwestiwn 4 yn ATISN16419, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gohebu’n uniongyrchol gyda’r gwerthwr; fodd bynnag, mae’n bosibl na fyddai’r wybodaeth hon wedi cael ei datgelu dan Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |
| ATISN 16411 | 19 Gorffennaf 2022 | 1. A wnewch chi gyhoeddi’r ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Plant Pot Limited/Gŵyl y Dyn Gwyrdd os gwelwch yn dda.<br><br>2. A wnewch chi gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd rhwng Llywodraeth | Gwybodaeth wedi’i chadw’n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | Cymru a Plant Pot Limited/Gŵyl y Dyn Gwyrdd os gwelwch yn dda. | |
| ATISN 16423 | 19 Gorffennaf 2022 | Copïau o'r holl brisiadau a gwblhawyd ar gyfer Fferm Gilestone cyn iddi gael ei phrynu gan Lywodraeth Cymru | Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA).<br><br>Fodd bynnag, fe'i datgelwyd wedyn dan yr un cais yn dilyn adolygiad mewnol ar 07 Medi 2022. |
| ATISN 16348 | 19 Gorffennaf 2022 | Yr wybodaeth ganlynol gan gynnwys yr holl gofnodion a gohebiaeth:<br>1. Adran Materion Economaidd – 'prisiad annibynnol' o Fferm Gilestone, copi o'r prisiad a'r ffioedd a dalwyd.<br><br>2. Mae adroddiadau yn y cyfryngau'n nodi y bydd 174 o swyddi'n cael eu creu – yr holl wybodaeth mewn perthynas â | Q1 – Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000<br><br>C2-5 ac A-E: Dim gwybodaeth yn cael ei dal.<br><br>Rydym yn nodi o ran C5, bod Cyngor Sir Powys ers hynny wedi rhyddhau negeseuon e-bost a gyfnewidiwyd rhwng un o swyddogion Llywodraeth Cymru (Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol) ac un o |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o’r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o’r Ymateb i’r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo’n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | ‘swyddi’ yn Gilestone.<br><br>3. Asesiad amgylcheddol o effaith prosiect datblygu economaidd yn Fferm Gilestone – yr holl wybodaeth.<br><br>4. Cyflawni dyletswydd statudol yr Adran dan Ddeddf yr Amgylchedd i roi sylw dyladwy i ddibenion y Parc Cenedlaethol wrth brynu Fferm Gilestone fel ‘lleoliad parhaol’ ar gyfer Gŵyl y Dyn Gwyrdd? Gwybodaeth mewn perthynas â’r ddyletswydd statudol hon.<br><br>5. Gohebiaeth a gwybodaeth rhwng yr Adran Materion Economaidd a Chyngor Sir Powys mewn perthynas â chefnogaeth y Cyngor yn ôl pob golwg i ddefnyddio’r fferm. | swyddogion Cyngor Sir Powys, mewn perthynas â thrwyddedu a chefnogaeth gyffredinol i weithgareddau posibl Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn Fferm Gilestone. |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | Gofynnwyd hefyd am yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru wrth brynu Fferm Gilestone:-<br>a) Y broses a ddilynwyd ar gyfer canfod opsiynau eraill ar gyfer lleoliad? Allwn ni weld yr allbynnau?<br><br>b) Y broses a ddilynwyd ar gyfer gwerthuso opsiynau eraill ar gyfer lleoliad? Allwn ni weld yr allbynnau?<br>c) Pa broses a ddilynwyd i gadarnhau addasrwydd lleoliad Gilestone? Allwn ni weld yr allbynnau?<br><br>d) Beth oedd y sail gyfreithiol a pholisi ar gyfer prynu Fferm Gilestone?<br><br>e) Beth oedd y sail gyfreithiol a pholisi ar gyfer camau arfaethedig i brydlesu neu werthu Fferm | |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | Gilestone i gwmni preifat heb broses dendro neu brofi'r farchnad? | |
| ATISN 16447 | 21 Gorffennaf 2022 | Fe ofynnoch chi am yr holl ddeunydd/gohebiaeth ac adroddiadau ar fanteision economaidd Gŵyl y Dyn Gwyrdd. | Darparodd Llywodraeth Cymru'r ddolen ganlynol ar gyfer yr wybodaeth y gofynnwyd amdani – Cyflwyniad PowerPoint (llyw.cymru) |
| ATISN 16483 | 12 Awst 2022 | Cyfanswm y taliadau blynyddol a wnaed i Ŵyl y Dyn Gwyrdd bob blwyddyn (fel grantiau, cymorthdaliadau, rhoddion, beth bynnag a.y.b.) ar gyfer pob blwyddyn o 2013 tan (a chan gynnwys) 2022. | Dadansoddiad o'r cyllid fel a ganlyn:<br>• 2014: £170,000 – Grant Digwyddiadau Mawr<br>• 2015-2016: – £276,000 – Grant Diwydiannau Creadigol/Twristiaeth, Nawdd Fasnachol i ddatblygu mwy o broffil yn y cyfryngau a lansio partneriaeth gyda BBC6 Music<br>• 2016 - £50,000 – Twristiaeth, Diwydiannau Creadigol a Bwyd – Cymorth Nawdd |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o’r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o’r Ymateb i’r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo’n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | | • 2017 - £150,000 – Grant Digwyddiadau Mawr – I Gynyddu Capasiti<br><br>• 2017-2019 – £100,000 – Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth – Datblygu’r Buarth ar gyfer Gŵyl Cwrw a Seidr Cymru<br><br>• O dan y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn 2020, cafodd Gŵyl y Dyn Gwyrdd gyfanswm cyllid o £526,111 |
| ATISN 16480 | 12 Awst 2022 | Mewn perthynas â phresenoldeb aelodau o Lywodraeth Cymru yng Ngŵyl y Dyn Gwyrdd yn Nglanwysg mewn unrhyw gymhwyster swyddogol neu waith dros y pum mlynedd ddiwethaf<br>1. Enwau unrhyw rai a oedd yn bresennol ac eithrio mewn cymhwyster preifat | Cafodd yr esemptiad dan Adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ei gymhwyso gan bod yr wybodaeth yn ddigon hygyrch i’r ymgeisydd trwy fodd arall.<br><br>Caiff yr holl Ymrwymiadau Gweinidogol eu cyhoeddi ar https://www.llyw.cymru/cyfarfodydd-digwyddiadau-gweinidogol |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | 2. A aethant fel gwesteion gwadd, ac os felly gan bwy y cawsant eu gwahodd.<br><br>3. A aethant ag unrhyw friff swyddogol.<br><br>4. Ym mha flynyddoedd oeddent yn bresennol<br><br>5. A gofnodwyd unrhyw bresenoldeb mewn cofrestr buddiannau | |
| ATISN 16481 | 12 Awst 2022 | 1. Y cynllun busnes amlinellol a gyflwynwyd gan Ŵyl y Dyn Gwyrdd, neu Plant Pot Ltd, neu unrhyw gwmnïau a gaiff eu rhedeg gan Fiona Stewart mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru.<br><br>2. Y cynllun busnes llawn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Fiona Stewart | Cwestiynau 1 a 2 - Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.<br><br>Cwestiwn 3 – Ni fu unrhyw ymgynghori o'r fath. |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o’r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o’r Ymateb i’r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo’n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | ar 29 Mehefin 2022.<br><br>3. Pa gwmnïau neu fudiadau yn y diwydiant cerddoriaeth yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â hwy mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone? | |
| ATISN 16494 | 31 Awst 2022 | Adroddiad BOP Consulting y cyfeiriwyd ato mewn cyflwyniad PowerPoint a ryddhawyd yn ATISN 16447 ar fater Fferm Gilestone. Fe ryddhaoch chi ffeil y cyflwyniad PowerPoint i mi (am yr eildro) yn lle’r adroddiad ei hun. | Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd ‘Adroddiad BOP Consulting’ ganddi. |
| ATISN 16611 | 01 Medi 2022 | Adroddiad BOP Consulting sydd wedi cael ei grybwyll mewn gohebiaeth mewn perthynas â Fferm Gilestone yn Nhalybont-ar-Wysg | Dim gwybodaeth yn cael ei dal. |
| ATISN 16593 | 21 Medi 2022 | Copïau o’r holl gofnodion a gohebiaeth sy’n ymwneud â phrynu Fferm | Dim gwybodaeth yn cael ei dal. |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | | Gilestone, Talybont-ar-Wysg a'i defnyddio yn y dyfodol rhwng yr Adran Materion Economaidd neu Cymru Greadigol a'r canlynol:<br>• adrannau â chyfrifoldeb am yr argyfwng bioamrywiaeth<br>• adrannau â chyfrifoldeb am argyfwng yr hinsawdd<br>• adrannau â chyfrifoldeb am yr amgylchedd | |
| ATISN 16545 | 04 Hydref 2022*<br><br>Cafodd y cais rhyddid gwybodaeth hwn ei ailagor ar ôl cwyn ac adolygiad mewnol | Copi o'r holl ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone. | Yn dilyn adolygiad mewnol, cafodd gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Gŵyl y Dyn Gwyrdd gan ddechrau ar 01 Hydref 2021 a 22 Mawrth 22 ei datgelu. |

| Rhif y Cais Rhyddid Gwybodaeth | Dyddiad | Crynodeb o'r Cais Rhyddid Gwybodaeth | Crynodeb o'r Ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a sylw archwilio (lle y bo'n berthnasol) |
|---|---|---|---|
| ATISN 16636 | 06 Hydref 2022 | Copi o ohebiaeth trwy lythyr ac e-bost rhwng Knight Frank a Llywodraeth Cymru yn ystod 2022. | Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd adran 12 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. |
| ATISN 16658 | 13 Hydref 2022 | Copi o'r "Dadansoddiad Cost a Budd" a gwblhawyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i oleuo'r penderfyniad gweinidogol i brynu Fferm Gilestone am swm o £4.25 miliwn. | Dim gwybodaeth yn cael ei dal. |
| ATISN 16695 | 27 Hydref 2022 | Y cynllun busnes amlinellol mewn perthynas â phrynu Fferm Gilestone | Gwybodaeth wedi'i chadw'n ôl ar sail / yn rhinwedd Adran 43 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA). |